# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2016

Amser y cyfarfod: 13.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3615

**12**

## Datganiad y Llywydd

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad yn dymuno'n dda i dîm pêl-droed Cymru yng ngêm gynderfynol pencampwriaethau Ewropeaidd 2016 UEFA heno ar ran y Cynulliad, ac estynnodd longyfarchiadau i'r tîm am eu llwyddiant hyd yma yn y twrnamaint, sydd wedi ysbrydoli'r genedl gyfan.

## 1 Dadl ar Araith y Frenhines

Dechreuodd yr eitem am 13.02

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

**NDM6060** Elin Jones (Ceredigion)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2016/2017.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 11 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r Briff Ymchwil: 'Cymru a'r UE: Beth mae'r bleidlais i adael yr UE yn ei olygu i Gymru?' ac yn credu y dylid gwneud darpariaethau, ar ôl i'r DU adael yr UE, i sicrhau bod pob deddfwriaeth sy'n rhoi effaith i Gyfarwyddiadau a Rheoliadau'r UE yn ymwneud â meysydd fel diogelu'r amgylchedd, hawliau gweithwyr, diogelwch bwyd ac amaeth yn cael eu cadw yng nghyfraith Cymru a'r DU oni bai y cânt eu dirymu gan y Senedd berthnasol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 11 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6060 Elin Jones (Ceredigion)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU 2016/2017.

2. Yn gresynu at y ffaith nad yw Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU yn mynd mor bell â chynnig pwerau tebyg i'r rhai sydd ar gael i'r Alban, neu sy'n cael eu cynnig i'r Alban.

3. Yn nodi'r Briff Ymchwil: 'Cymru a'r UE: Beth mae'r bleidlais i adael yr UE yn ei olygu i Gymru?' ac yn credu y dylid gwneud darpariaethau, ar ôl i'r DU adael yr UE, i sicrhau bod pob deddfwriaeth sy'n rhoi effaith i Gyfarwyddiadau a Rheoliadau'r UE yn ymwneud â meysydd fel diogelu'r amgylchedd, hawliau gweithwyr, diogelwch bwyd ac amaeth yn cael eu cadw yng nghyfraith Cymru a'r DU oni bai y cânt eu dirymu gan y Senedd berthnasol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 2 | 10 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.52

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 4, 5 a 7 gan y Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 15.42

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

## 4 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

Dechreuodd yr eitem am 15.50

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM6058**

Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod gan gwmni dur Tata ym Mhort Talbot well gobaith o oroesi yn dilyn Brexit.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 43 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi pa mor bwysig ydyw i Tata UK gael mynediad i'r Farchnad Sengl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 14 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 4 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ganfod ffyrdd o gefnogi holl ddiwydiant dur Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 2 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio arian presennol yr UE i hyrwyddo cynigion Plaid Cymru, yn benodol Cronfa Fuddsoddi Strategol Ewrop fel y gall y gwaith ynni adnewyddadwy newydd gael ei adeiladu ar safle TATA ym Mhort Talbot i fynd i'r afael â'r mater o gostau ynni uchel, a Horizon 2020, fel y gall canolfan ymchwil a datblygu dur gael ei sefydlu ar Gampws Arloesi Prifysgol Abertawe i wella cyfleoedd busnes TATA UK.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 10 | 27 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol i olynydd Tata os oes angen hyn o ganlyniad i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 1 | 2 | 47 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at benderfyniad UKIP i bleidleisio yn erbyn cynigion Moderneiddio'r Comisiwn Ewropeaidd yn Senedd Ewrop - mesurau a fyddai wedi arwain at gostau llawer uwch yn cael eu codi ar ddur o Tsieina sy'n cael ei lwytho ar farchnadoedd Ewrop.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 9 | 5 | 48 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM6058**

**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pa mor bwysig ydyw i Tata UK gael mynediad i'r Farchnad Sengl.

2. Yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ganfod ffyrdd o gefnogi holl ddiwydiant dur Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol i olynydd Tata os oes angen hyn o ganlyniad i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

4. Yn gresynu at benderfyniad UKIP i bleidleisio yn erbyn cynigion Moderneiddio'r Comisiwn Ewropeaidd yn Senedd Ewrop - mesurau a fyddai wedi arwain at gostau llawer uwch yn cael eu codi ar ddur o Tsieina sy'n cael ei lwytho ar farchnadoedd Ewrop.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 5 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.51

## 6 Dadl Fer - WEDI EI OHIRIO TAN 13 GORFFENNAF

Gohiriwyd yr eitem tan 13 Gorffennaf 2016

**NDM6059 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Mae angen ein hundebau arnom fwy nag erioed

Edrych ar waith yr undebau yng Nghymru o ran mynd i'r afael â llymder ac annog mwy o aelodaeth a chefnogaeth i undebau.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.55

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2016